

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Beth yw diben y codau mynediad am ddim hyn?

Mae'r codau hyn ar gyfer mynediad at gyrsiau dysgu hwyliog a phoblogaidd am ddim i rieni a gofalwyr, o'r enw: 'Deall eich beichiogrwydd, yr esgor, yr enedigaeth a'ch babi'; 'Deall eich babi'; a 'Deall eich plentyn'. Ysgrifennwyd y cyrsiau gan *Solihull Approach*, sef darparwr gwybodaeth a chysiau adnabyddus y GIG i rieni. Mae'r cyrsiau ar-lein fel arfer yn costio rhwng £19 a £39 yr un. Efallai y byddwch wedi derbyn cod mynediad sy'n rhoi mynediad i chi at un neu bob un o'r cyrsiau yn RHAD AC AM DDIM.

Ar gyfer pwy mae'r cyrsiau hyn?

Ar gyfer HOLL ddarpar rieni, rhieni, neiniau a theidiau neu ofalwyr unrhyw blant o'r cyfnod cyn-geni i 18 mlwydd oed. Nid oes rhaid i chi fod yn cael trafferthion. Mae'r cwrs hwn yn berthnasol i rieni pob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion arbennig, awtistiaeth, ADHD ac ati.

Beth yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cyrsiau ar-lein hyn?

Mae ymchwil yn dangos bod y cwrs ar-lein hwn yn helpu i leihau anghydfod ymysg teuluoedd ac yn gwella agosatrwydd. Mae teuluoedd yn dweud wrthym fod y cyrsiau hyn yn helpu i reoli teimladau cryf plant, cyfathrebu teuluol, deall ei gilydd ac ymddygiad. Rydym ynghlwm wrth y gwaith o werthuso ein holl grwpiau. Mae 'Deall eich plentyn' a 'Deall eich beichiogrwydd...' wedi'u hachredu gan yr Adran Addysg.

Beth fydd ei angen arnaf i gwblhau'r cwrs ar-lein?

Yr oll sydd ei angen arnoch i fynd ati yw eich cod mynediad a phorwr gwe diweddar ar gyfrifiadur, gliniadur, llechen neu ffôn clyfar (mae'n bosibl y bydd llyfrgelloedd lleol neu eich ysgol yn gallu rhoi mynediad at hyn), yn ogystal â chyfeiriad e-bost. Ewch i'r wefan www.inourplace.co.uk a mewnbynnwch y cod pan fydd gofyn i chi wneud hynny. Gofynnir i chi am eich cyfeiriad e-bost a chyfrinair o'ch dewis. Mae hyn fel y gallwch ddychwelyd i'r safle a mewngofnodi, a bydd eich cyfrif yn cofio bod gennych fynediad at y cwrs/cyrsiau a bydd yn parhau o'r pwynt y gwnaethoch adael y cwrs.

Faint o amser mae'r cyrsiau'n ei gymryd?

Mae ganddynt rhwng 9 a 11 sesiwn, sy'n cymryd tua 20 munud bob tro. Rydym yn argymhell eich bod yn cwblhau un sesiwn yr wythnos. Mae gweithgareddau i chi roi tro arnynt rhwng eich sesiynau ar-lein, a all wella eich dysgu.

Sut ydw i'n dechrau arni?

Ewch i'r wefan www.inourplace.co.uk, mewnbynnwch y cod mynediad a chofrestrwch am gyfrif. Yna, dilynwch y cwrs o'ch dewis. Bydd eich cyfrif yn parhau â'r cwrs o'r pwynt y gwnaethoch ei adael ddiwethaf. Ni fyddwch yn derbyn unrhyw e-byst marchnata. Ni fydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i unrhyw drydydd parti. Bydd eich ymatebion i'r cwestiynau monitro yn gwbl ddiennw. Mae'n bosibl y byddwch yn derbyn ambell e-bost gyda diweddariadau am y cyrsiau. Byddwch yn derbyn e-byst o longyfarch wrth i chi ddatblygu trwy'r cwrs.

A fydd fy nghodau mynediad yn dod i ben?

Mae'n bosibl y bydd gan eich cwpon ddyddiad dod i ben, yn dibynnu ar o ble y daeth. Fodd bynnag, dim ond y tro cyntaf y byddwch yn cael mynediad at y cwrs y bydd angen i chi ddefnyddio'r cod. Wedi hynny, NI fydd eich manylion mewngofnodi'n dod i ben a gallwch fynd at y cwrs am flynyddoedd i ddod, wrth i'ch plentyn dyfu. Felly ewch ati cyn gynted â phosibl a pharhewch fel y mynnwch.

A allaf gael rhagor o godau ar gyfer ffrindiau neu aelodau eraill o'r teulu?

Mae'n bosibl prynu cod cwpon fel rhodd. Ewch i www.solihullapproachparenting.co.uk

Rhagor o gwestiynau, neu ymholiadau technegol? Cysylltwch â Solihull Approach

ar 0121 296 4448 o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am–5pm neu e-bostiwch solihull.approach-parenting@heartofengland.nhs.uk